



Ein cyf: MA-(L)/HB/0783/17

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@cynulliad.cymru

7 Rhagfyr 2017

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") yn ymwneud â Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 ("y Rheoliadau") a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 5 Rhagfyr. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys diwygiad i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995") sy'n cynnwys darpariaeth i Gymru. Er fy mod wedi gosod y memorandwm, rwyf am eich hysbysu nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol.

Diben y Rheoliadau yw cyflwyno Rheoliad (UE) 2017/852 yn ymwneud â mercwri ("Rheoliad yr UE"). Mae Rheoliad yr UE yn sicrhau bod y gyfraith Ewropeaidd yn cydymffurfio â'r Confensiwn Minamata rhyngwladol ar Fercwri, a lofnodwyd gan y DU ym mis Hydref 2013.

Gyda chytundeb y gweinyddiaethau datganoledig, cynhaliodd Defra ymgynghoriad cyhoeddus ar ddarpariaethau arfaethedig y Rheoliadau (<https://consult.defra.gov.uk/environmental-quality/control-of-mercury-enforcement-regulations-2017/>). Cynigiodd y byddai'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn Rheoliad yr UE yn cael eu cyflwyno yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Yr unig eithriad fyddai'r cyfyngiadau newydd ar y defnydd o amalgam deintyddol (sy'n cynnwys mercwri) gan mai Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a fyddai'n gyfrifol am gyflwyno'r cyfyngiadau hyn yng Nghymru. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 5 Rhagfyr er mwyn sicrhau bod rhannau ohonynt yn gallu dod i rym erbyn 1 Ionawr 2018 yn unol â gofynion Rheoliad yr UE.

Wrth ddrafftio'r Rheoliadau, cytunodd cyfreithwyr Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig, mewn ymgynghoriad â rheoleiddwyr amgylcheddol, mai'r ffordd fwyaf cyfleus a phriodol o alluogi rheoleiddwyr ym Mhrydain i adennill costau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau gorfodi newydd oedd ychwanegu Rheoliad yr UE ar fercwri at y rhestr o ddibenion y gall rheoleiddwyr wneud cynlluniau codi tâl ar eu cyfer o dan adran 41 o Ddeddf 1995.

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gweithredu ar lefel y DU ac mae eu hangen er mwyn cyflwyno Rheoliad yr UE. O ganlyniad, ychydig iawn o gyfle sydd, os o gwbl, i gyflwyno polisi Cymreig unigryw yn y maes hwn. Mae'r diwygiad i adran 41 o Ddeddf 1995 yn caniatáu adennill costau a ysgwyddir wrth gyflwyno Rheoliad yr UE gan Asiantaeth yr Amgylchedd, CNC ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA). Felly, mae'r diwygiad yn berthnasol i Brydain ac nid i Gymru yn unig. Pe na bai'r diwygiad yn cael ei wneud, neu pe na bai'n berthnasol i Gymru, byddai CNC o dan anfantais ariannol wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau. Mae'r diwygiad yn sicrhau bod CNC yn gallu adennill costau yn yr un modd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a SEPA. Nid yw Deddf 1995 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, ond mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiad tebyg i Orchymyn yr Amgylchedd (Gogledd Iwerddon) 2002 i sicrhau canlyniad tebyg yno.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A. Rwy'n ystyried bod y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, nad yw'n ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol, atodol neu arbedion yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau yn destun gweithdrefn negyddol yn Senedd y DU, ac felly fe gawsant eu llunio cyn cael eu gosod, a chyn belled nad oes unrhyw Aelod Seneddol yn eu hatolygu, bydd rhannau ohonynt, gan gynnwys y rhan sy'n diwygio Deddf 1995, yn dod i rym ar 1 Ionawr. Wrth reswm, mae'n rhaid i chi fel y pwyllgor cyfrifol y cyfeirir ato o dan Reol Sefydlog 30A benderfynu a ydych chi eisiau ystyried ac adrodd ar y memorandwm.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus a ddylwn gyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol o dan Reol Sefydlog 30A, i'w drafod ar ôl i'r 35 diwrnod sy'n cael eu caniatáu ar gyfer craffu gan y pwyllgor cyfrifol ddod i ben. Wrth reswm, nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud hyn. Fodd bynnag, fel arfer byddem yn cyflwyno cynnig fel bod y Cynulliad yn gallu rhoi ei gydsyniad, neu beidio, cyn gwneud yr offeryn statudol perthnasol.

Yn yr achos hwn, gan fod y Rheoliadau eisoes wedi'u gwneud, rwyf wedi penderfynu peidio gosod cynnig o'r fath. Byddai angen ystyried pob achos yn unigol, ond yn y Rheoliadau hyn rwy'n ystyried nad yw'r diwygiad perthnasol yn ddadleuol a'i fod yn cydymffurfio â pholisi presennol. Y cwbl y mae'n ei wneud yw ychwanegu cyfrifoldebau newydd y rheoleiddwyr yn ymwneud â mercwri at y rhestr hir o weithgareddau rheoleiddio eraill y gallant lunio cynlluniau codi tâl ar eu cyfer eisoes. Nid wyf yn credu y byddai'n fanteisiol cynnal dadl yn y Cynulliad ar a ddylid rhoi cydsyniad i ddarpariaeth mewn Rheoliadau sydd eisoes wedi'u gwneud, lle nad yw'r ddarpariaeth dan sylw yn newid sylweddol i bolisi presennol. Hefyd, bydd y rhan o'r Rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol eisoes wedi dod i rym cyn y 35 diwrnod a ganiateir ar gyfer craffu o dan Reol Sefydlog 30A. Serch hynny, gall unrhyw Aelod Cynulliad sy'n teimlo'n gryf bod angen trafod y memorandwm gyflwyno cynnig i drafod y mater mewn Cyfarfod Llawn.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AC
Gweinidog yr Amgylchedd